# PWYLLGOR ARCHWILIO

## COFNODION

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 18 Tachwedd 1999 |
| **Amser:** | 9.30am |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1 |

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | **Aelodau** | |
| | Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| | Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| | Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| | Christine Chapman | Cwm Cynon |
| | Geraint Davies | Rhondda |
| | Brian Gibbons | Aberafon |
| | Alison Halford | Delyn |
| | Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |
| | **Swyddogion** | |
| | Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| | Frank Grogan | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |

| | |
|---|---|
| Jon Shortridge | Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad Cenedlaethol |
| Phil Gray | Swyddog Cydymffurfio y Cynulliad Cenedlaethol |
| Andrew George | Clerc |
| Julie Bragg | Dirprwy Glerc |

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Wigley.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Sesiwn Cymryd Tystiolaeth**

**Papur:** AC-02-99(p.1)

1.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn cysylltiad a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwilydd Cenedlaethol Cymru ar *Diogelu a Chadw'r Dreftadaeth Adeiledig yng Nghymru* a gyhoeddwyd ar 29 Hydref 1999.

**Tystion**

| | |
|---|---|
| Tom Cassidy | Prif Weithredwr, Cadw |
| David Richards | Prif Swyddog Cyllid, Y Cynulliad Cenedlaethol |
| Richard Avent | Prif Arolygydd Henebion ac Adeiladau Hanesyddol, Cadw |
| Jean Booker | Ysgrifenyddes Bwrdd Henebion Cymru |
| Douglas Hogg | Prif Bensaer, Cadw |

1.2 Atodir trawsysgrif gair am air o'r eitem hon fel atodiad i'r cofnodion hyn.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

**Papur:** AC-01-99(min)

2.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol yn amodol ar gynnwys yr ychwanegiad canlynol ar

ddiwedd paragraff 2.9:

'Yn seiliedig ar brofiad y NAO o archwiliadau VFM yn y DU, amcangyfrifodd yr Archwilydd Cyffredinol y gellir cyflawni arbedion cost hyd at saith gwaith cost yr ymchwiliadau. Fodd bynnag, ar y cam hwn, yr oedd yn rhaid i unrhyw amcangyfrif o arbedion posibl fod yn betrus, o gofio cwmpas archwiliadau ar gyfer Cymru yn unig a'r ffaith mai 2000-2001 fyddai blwyddyn lawn gyntaf gweithrediadau'r Archwilydd Cyffredinol yng Nghymru.'

2.2 Mewn ymateb i ymholiad ynglyn a pharagraff 2.2. cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol y byddai effeithiolrwydd Awdurdod Datblygu Cymru wrth annog datblygiad diwydiant cynhenid yn cael ei gynnwys fel rhan o'i waith cyfredol ar Awdurdod Datblygu Cymru. Gellid disgwyl adroddiad ar wahân ar y mater hwn ymhen 3 i 6 mis.

2.3 Dywedodd y Cadeirydd, yn dilyn y penderfyniad yn y cyfarfod diwethaf ynghylch y lefel o ariannu ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol yn 2000-2001, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyflwyno ei amcangyfrifon terfynol a chafodd y rhain eu cyflwyno gerbron y Cynulliad ar 30 Medi yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru.

2.4 Cyhoeddwyd rhaglen derfynol yr Archwilydd Cyffredinol o archwiliadau gwerth am arian yn 2000/2001 i'r Aelodau a chadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi ystyried argymhellion yr aelodau ar gyfer archwiliadau cyn belled a phosibl. Lle na chafodd argymhellion eu hymgorffori ar gyfer y flwyddyn nesaf, gellid eu hystyried yn y dyfodol. Cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol y gellid ystyried cynnig i archwilio twyll yn yr NHS yn y dyfodol ond cydnabuwyd, serch hynny, bod hwn yn fater a oedd yn berthnasol i'r DU gyfan.

2.5 Cadarnhaodd y Cadeirydd y trefniadau ar gyfer ymweliad y Pwyllgor a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 29 Tachwedd. Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor, ar 16 Rhagfyr, yn sesiwn cymryd tystiolaeth ar adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar *Addysg Bellach yng Nghymru.*

2.6 Daeth y cyfarfod i ben am 11.50am.